# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

## Dydd Iau 9 Mehefin 2022

## Cofnodion Drafft

**Yn bresennol**

- Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
- Deborah Smith, Wordsmith Communication (Ysgrifennydd)
- Altaf Hussain AS
- Martin Birch, Cyngor Caerdydd
- Philip Blatchly, PR Blatchly
- Stephen Tom, Phillip Tom & Sons
- Terry Tennens, y Gymdeithas Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol (SAIF)
- Jon Levett, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD)
- Lorraine Barrett, Dyneiddwyr Cymru
- Janette Bourne, Cruse Cymru
- Gethin Rhys, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
- Carol Humphreys, Gofalu am y Teulu/Care for the Family
- Rachel Bradburne, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD)
- Kim Bird
- Cyng Ryland Doyle, Abertawe
- Alex Hughes-Howells (Swyddfa Altaf Hussain AS)

**Ymddiheuriadau**

- Llyr Gruffydd AS
- Jane Dodds AS
- Lewis Clark, Tŷ Hafan
- Rhys Price, Gwilym Price
- Jane Dodds AS
- Kate Edwards, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) / tiwtor
- James Tovey, Tovey Brothers
- David Beamer, Brevia Consulting

**Cymeradwyo'r Cofnodion**

Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol.

Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion. Cynigiodd Jon Levett y dylid cymeradwyo'r cofnodion ac eiliwyd hyn gan Philip Blatchly. Pleidleisiwyd o blaid y cynnig heb unrhyw wrthwynebiad a heb unrhyw aelodau'n ymatal.

**Materion sy'n codi**

Roedd dau fater yn codi. Yn gyntaf, rhannwyd rhestr o siaradwyr posibl ar gyfer cyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol drwy e-bost cyn y cyfarfod a gwnaed ceisiadau ychwanegol am gyflwyniad gan Lywodraeth yr Alban ar drwyddedu trefnwyr angladdau ac am ddiweddariad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd/y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Hefyd, gofynnodd Terry Tennens am gyfle i gyflwyno'r gwaith y mae'r Gymdeithas Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol (SAIF) yn ei wneud i ail-lunio ei gwaith monitro/arolygu safonau.

Yr ail fater yn codi oedd gwahodd y Sefydliad Safonau Angladdau Annibynnol (IFSO) i roi cyflwyniad yn un o gyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol – a gwnaethant hynny yn ystod y cyfarfod hwn.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, gan gynnwys ethol swyddogion**

Dywedodd Mark Isherwood wrth y grŵp ei bod yn ofynnol i grwpiau trawsbleidiol gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o fewn 12 mis i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol.

Gwahoddodd Deborah i oruchwylio'r broses o ethol Cadeirydd ar gyfer y grŵp yn ystod y flwyddyn i ddod, gan nodi ei fod yn fodlon sefyll i gael ei ailethol. Nid oedd unrhyw ymgeiswyr eraill, felly gofynnodd Deborah am gynigydd ac eilydd.

Gwnaed y cynnig gan Terry Tennens, ac fe'i heiliwyd gan Lorraine Barrett. Cafodd Mark ei ail-ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf heb unrhyw wrthwynebiad a heb unrhyw aelodau'n ymatal.

Fel Cadeirydd, goruchwyliodd Mark Isherwood y broses o ethol Ysgrifennydd i'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nododd Deborah Smith ei bod yn dymuno parhau yn y swydd.

Nid oedd unrhyw ymgeiswyr eraill, felly gofynnodd Mark am gynigydd ac eilydd.

Gwnaed y cynnig gan Jon Levett, ac fe'i heiliwyd gan Lorraine Barrett. Cafodd Deborah ei hail-ethol yn Ysgrifennydd ar gyfer y flwyddyn nesaf heb unrhyw wrthwynebiad a heb unrhyw aelodau'n ymatal.

Nododd Mark ei bod yn ofynnol i'r grŵp gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o fewn chwe wythnos i'r cyfarfod hwn i grynhoi ei waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac y byddai adroddiad drafft yn cael ei anfon at aelodau'r grŵp drwy e-bost ar ôl y cyfarfod. Dylid anfon unrhyw sylwadau ar yr adroddiad at Deborah i'w helpu i fireinio'r fersiwn derfynol.

**Siaradwr: John Withington, Cyfarwyddwr Rheoleiddio, y Sefydliad Safonau Angladdau Annibynnol**

Croesawodd Mark John Withington, Cyfarwyddwr Rheoleiddio, y Sefydliad Safonau Angladdau Annibynnol, i'r cyfarfod.

Sefydlwyd y Sefydliad Safonau Angladdau Annibynnol ym mis Ionawr eleni i ddarparu gwasanaeth monitro safonau annibynnol ar gyfer cwmnïau angladdau yn y DU. Mae'n cynnwys holl waith arolygu Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau, yn ogystal â gwaith y gymdeithas ar safonau, ond mae hefyd yn agored i unigolion a sefydliadau nad ydynt yn aelodau o'r gymdeithas.

Rhoddodd John Withington wybodaeth am waith y Sefydliad hyd yma a rhannodd ei farn ar bwysigrwydd gwaith annibynnol sy'n seiliedig ar risg i reoleiddio cwmnïau angladdau i roi sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael. Hefyd, nododd y byddai'r Sefydliad yn agored i unigolion a sefydliadau nad ydynt yn aelodau o Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau o fis Mehefin fel rhan o'r nod o geisio darparu gwasanaeth annibynnol i fonitro safonau ansawdd mewn ffordd sy'n hygyrch i bob cwmni yn y sector angladdau.

Gofynnodd Janette Bourne a oedd y Sefydliad wedi ystyried safonau gofal ar gyfer pobl mewn profedigaeth fel rhan o'r gwaith monitro hwn a gofynnodd Martin Birch a oedd safonau amgylcheddol yn rhan o'r meini prawf monitro. Eglurodd John Withington mai'r unig ofynion ar hyn o bryd oedd bodloni gofynion rheoleiddwyr eraill, ond y byddent yn ymchwilio i'r materion hyn maes o law.

Dywedodd Mark Isherwood AS nad diffyg cyfranogiad gan weithredwyr anghofrestredig [mewn marchnadoedd eraill] oedd y broblem i'r Llywodraeth yn y gorffennol o ran rheoleiddio gwirfoddol. Roedd y gweithredwyr hyn yn cymryd rhan yn y broses, ond roeddent wedyn yn parhau fel o'r blaen

gan nad oedd unrhyw gamau gorfodi yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Felly, roedd angen rheoleiddio statudol.

Dywedodd John Withington fod ganddo hyder ym mhrosesau'r Sefydliad, ond mai'r gwir brawf fyddai faint o gwmnïau nad ydynt yn aelodau o Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau neu SAIF a fydd yn dewis cymryd rhan yn y broses graffu.

**Trafodaeth: ailddefnyddio beddau**

Cyflwynodd Mark Isherwood AS y drafodaeth drwy roi crynodeb o'r mater hwn, sydd wedi dod i'r fei sawl gwaith yn ystod y misoedd diwethaf.

Dywedodd ei fod wedi mynd i gyfarfodydd y Grŵp Hollbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth yn San Steffan, sy'n ymgyrchu dros fynd i'r afael â'r prinder beddau mewn sawl rhan o Gymru a Lloegr.

Rhoddodd y wybodaeth gefndirol a ganlyn i'r cyfarfod:

> Mae rhai lleoliadau, gan gynnwys yng Nghymru, bellach wedi rhedeg allan o le yn llwyr, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl deithio ymhellach i gael mynediad at wasanaeth claddu. Dim ond nifer gyfyngedig o feddau newydd sydd ar ôl mewn llawer o lefydd eraill.
>
> Mae Deddf Claddu 1857 yn ei gwneud yn drosedd amharu ar weddillion dynol oni bai y ceir caniatâd priodol. Er bod y ddeddfwriaeth hon wedi'i diweddaru, mae'n parhau'n weithredol, ac ar hyn o bryd mae'n rhaid cael caniatâd i symud unrhyw weddillion dynol yng Nghymru. Rhoir y caniatâd hwn drwy drwydded gan y Swyddfa Gartref.
>
> Y canlyniad yw system ddryslyd, gyda rheoliadau ynghylch ailddefnyddio beddau yn amrywio hyd yn oed o fewn mynwentydd eu hunain. Mae materion ffydd pwysig i'w hystyried hefyd.
>
> Y tu allan i Lundain, yng Nghymru a Lloegr, ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer symud gweddillion i greu lle ychwanegol mewn mynwentydd; fodd bynnag, nid yw'r broblem o ddiffyg lle mewn mynwentydd wedi'i chyfyngu i Lundain ac mae'r ddeddfwriaeth uchod yn berthnasol i fynwentydd cyhoeddus yn unig.

Nododd Mark nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw safbwynt polisi ffurfiol ar y mater hwn, ac ar ôl cyfarfod ag ysgrifenyddiaeth y Grŵp Hollbleidiol i drafod y mater hwn yn benodol ym mis Ebrill, rydym yn archwilio'r safbwyntiau yng Nghymru i'n galluogi i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu safbwynt o'r fath.

Rhoddodd Deborah Smith y wybodaeth ddiweddaraf am yr arolwg a anfonwyd yn ddiweddar i gasglu barn aelodau'r grŵp – a hefyd y cymunedau angladdau, ffydd a phrofedigaeth ehangach. Anogodd Deborah unrhyw un sydd heb ymateb eto i gymryd rhan i alluogi'r grŵp i lunio safbwynt cynhwysfawr drafft, a fydd wedyn yn destun ymgynghoriad.

Pwysleisiodd Martin Birch y dylai'r grŵp trawsbleidiol drafod faint o amser ddylai fynd heibio cyn ystyried adennill bedd. Eglurodd nad y tir y mae bedd wedi'i leoli ynddo sy'n cael ei werthu; yn hytrach, dim ond yr hawl i ddefnyddio'r tir am gyfnod penodol (hyd at 100 mlynedd) sy'n cael ei werthu.

Gofynnwyd hefyd pa bwerau sydd gan Lywodraeth Cymru o ran y mater hwn a gofynnwyd i Deborah Smith wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl.

Hefyd, gofynnwyd i Deborah Smith gysylltu ag Archesgob Cymru i ofyn am ei fewnbwn. Ymrwymodd i wneud hynny a dywedodd fod yr Eglwys yng Nghymru hefyd yn cyfrannu at yr arolwg mewn ffyrdd eraill hefyd.

Trafododd Altaf Hussain rai o'r materion sy'n golygu bod cefnogi camau i ailddefnyddio beddau yn heriol, ond nid yn amhosibl, i Fwslimiaid, a gofynnodd i'r Cyngor Claddu Mwslimaidd gael cyfle i wneud sylwadau yn ogystal â Chyngor Mwslimiaid Cymru.

Gofynnodd Lorraine Barrett, sy'n cynrychioli Dyneiddwyr y DU, i'r term 'angladdau ffydd' gael ei ehangu i fod yn 'angladdau ffydd a chred', i gwmpasu'r bobl nad ydynt yn arddel crefydd ond sy'n arddel credoau sy'n llywio eu hymagwedd at angladdau.

**Y wybodaeth ddiweddaraf: Ystyried ffydd a chred yn Fframwaith Profedigaeth Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd Gethyn Rhys, Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, ac Altaf Hussain AS y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mai gydag Abdul Ahmed o Gyngor Mwslimiaid Cymru i drafod mynediad at gymorth ar adeg profedigaeth gan gymunedau ffydd a chred fel rhan o Fframwaith Profedigaeth Llywodraeth Cymru, gyda ffocws arbennig ar gymunedau Mwslimaidd.

Y nod oedd sicrhau bod ffydd a chred yn fwy canolog i Fframwaith Profedigaeth Llywodraeth Cymru a sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar adeg profedigaeth, a bod yr unigolion sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn deall anghenion penodol pob cymuned. Ychwanegodd Gethin Rhys eu bod hefyd wedi trafod strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch hunanladdiad, gan nad yw'r ddogfen hon yn cyfeirio at ystyriaethau o ran ffydd a chred, a bod yr ystyriaethau hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion o'r fath. Pwysleisiodd Altaf Hussain AS bwysigrwydd dull cyson ledled Cymru a deialog dda â chyrff a sefydliadau ffydd.

Mae'n bosibl y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn ystod yr haf, a dywedodd Altaf a Gethin eu bod yn falch bod eu hymyrraeth wedi arwain at ailfeddwl y sefyllfa.

Nododd Janette Bourne fod diwallu anghenion cymunedau amrywiol ac addysgu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar adeg profedigaeth wedi bod yn ofyniad penodol wrth ddyrannu'r £1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru i 22 o sefydliadau sy'n gweithio ym maes gwasanaethau profedigaeth.

Gofynnodd hefyd i'r grŵp ymgysylltu â'r sefydliad cymorth i gymunedau amrywiol, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru, yn ogystal â Diverse Cymru.

Eglurodd Martin Birch y dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys gwasanaethau 7 diwrnod yr wythnos, gwasanaethau un diwrnod ac ardaloedd gwasgaru penodol ar gyfer Sikhiaid a Hindŵiaid. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith bod cost yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hyn, sy'n debygol o fod yn heriol i rai awdurdodau lleol, yn enwedig awdurdodau llai. Teimlai y byddai cefnogaeth a gwaith trawsffiniol yn fuddiol.

Dywedodd Lorraine Barrett fod yna ragdybiaeth yn aml y bydd angladd yn grefyddol, er nad ydy hyn bob amser yn wir. Felly, dylai gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth addasu eu ffyrdd o weithio i barchu pob cred a ffydd.

**Unrhyw fater arall**

Rhoddodd Rachel Bradburne, Terry Tennens a Gordon Swan y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o reoleiddio cynlluniau angladd sydd ar fin dechrau ac am fethiant cynlluniau angladd Safe Hands. Cafwyd trafodaeth benodol ar yr effaith ar gwsmeriaid Safe Hands a'r problemau posibl sy'n wynebu deiliaid cynlluniau eraill neu broblemau sy'n codi yn sgil methiant darparwr cynllun i sicrhau

awdurdodiad. Penderfynodd y grŵp ysgrifennu at John Glen, Gweinidog y Trysorlys, i drafod y mater hwn.

Eglurodd Stephen Tom fod darparwyr cynllun Safe Hands yn cysylltu ag ef, fel trefnydd angladdau, i fynegi pryderon a bod y cwmni yn gwneud popeth o fewn ei allu i roi sicrwydd iddynt.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn yr hydref.